**[Llinell i'w hychwanegu yn fersiwn terfynol y Cod pan gaiff ei gyflwyno gerbron y Senedd a'i gyhoeddi: Mae hwn yn God Ymarfer statudol sydd wedi cael ei gynhyrchu yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ac mae'n seiliedig ar ymarfer gorau trawslywodraeth. Mae wedi cael ei gymeradwyo gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet ("Y Gweinidog") a chafodd ei gyflwyno gerbron y Senedd gan y Gweinidog ar [dyddiad i'w gynnwys].**

Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill) [Deddf 2025]

# Cod Ymarfer Cosbau Sifil PSFA

**Ymwadiad** **4**

**1. Rhagymadrodd** **5**

1.1 Am y cod hwn 5

**2. Hawliau Gweithdrefnol** **6**

2.1 Hawliau Gweithdrefnol 6

**3. Goruchwyliaeth** **6**

3.1 Swyddogaeth Goruchwylio 6

**4. Cwmpas** **7**

4.1 Rhychwant Tiriogaethol 7

4.2 Pwy sydd yng nghwmpas cosbau 7

4.3 Troseddau y gellir rhoi cosbau ar eu cyfer 7

4.4 Gwahaniaethu rhwng twyll a gwall 8

4.5 Categorïau o gosbau y gellir eu rhoi 9

4.6 Defnyddio cosbau ag effaith ôl-weithredol 9

**5. Swyddogion Awdurdodedig** **10**

5.1 Swyddogion Awdurdodedig 10

5.2 Uwch Swyddogion Awdurdodedig 10

5.3 Datblygiad Proffesiynol 10

5.4 Pan atgyfeirir achos at y PSFA 11

5.5 Sut yr asesir bod yn agored i niwed? 12

5.6 Bod yn agored i niwed mewn cyfweleion 13

**6. Pwerau Gwybodaeth** **14**

**7. Cosbau yn achos Twyll** **14**

7.1 Pennu a yw achos yn bodloni safon brawf sifil 14

7.2 Sefydlu'r golled neu'r budd 16

7.3 Sut y cyfrifir lefelau cosb twyll 16

7.4 Hysbysiadau o fwriad 18

**8. Sylwadau yn achos cosbau twyll sifil** **19**

8.1 Hawliau gweithdrefnol 19

8.2 Cyfnodau amser ar gyfer sylwadau 20

8.3 Hysbysiadau o benderfyniadau cosb 21

**9. Adolygiadau Mewnol o benderfyniadau cosbau twyll sifil** **21**

9.1 Proses 21

9.2 Sut y cynhelir adolygiadau mewnol 22

**10. Apeliadau yn achos Cosbau Twyll** **23**

10.1 Sut i apelio hysbysiad cosb 23

**11. Pryd na cheir defnyddio cosbau** **23**

11.1 Proses 23

**12. Gostyngiad Cosb** **24**

12.1 Sut y defnyddir gostyngiadau cosbau 24

**13. Cosbau am beidio â chydymffurfio** **25**

13.1 Pryd y defnyddir cosbau am ddiffyg cydymffurfio 25

13.2 Hawliau Gweithdrefnol 26

13.3 Cyfrifo a defnyddio llog ar gosbau sifil 26

13.4 Sut y byddwn yn cysylltu ag unigolyn neu sefydliadau os byddwn yn rhoi cosb 26
**14. Beth os yw unigolyn neu sefydliad yn meddwl bod gwall neu gamgymeriad 27**
14.1 Trefniadau diogelu 27
14.2 Data - Sut i wneud cwyn 27
**15. Talu cosbau 28**
15.1 Sut i dalu cosb 28
15.2 Talu costau adferadwy a achoswyd 28
**16. Cosbau heb eu talu 29**
16.1 Cyfnodau Talu 29
16.2 Sut yr adferir dyledion cosbau sifil 29
16.3 Costau Ychwanegol 30
**17. Rheoli gordaliadau 30**
17.1 Gordaliadau 30
**18. Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion 31**
18.1 Sut y prosesir data 31
18.2 Cwynion 31
**19. Rhestr Termau 32**

# Ymwadiad

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn rhoi cyfarwyddyd cyffredinol yn unig ac ni ddylai gael ei ystyried yn ddatganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Os nad ydych yn deall unrhyw gynnwys o'r Cod, y gyfraith, neu unrhyw rwymedigaethau neu gyfrifoldebau a all fod gennych, dylech geisio cyngor annibynnol.

**Sylwer: Cod drafft yw hwn, wedi'i ddarparu i Dŷ'r Arglwyddi ym Mai 2025 i gynorthwyo Aelodau wrth iddynt ystyried y Bil ("y Bil") Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll Gwallau ac Adennill). Ni ddylid ei ddefnyddio na'i atgynhyrchu at unrhyw ddiben arall ac ni ddylid dibynnu arno at unrhyw ddiben arall.**

**Bydd y Cod hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Cynlluniwyd hyn ar gyfer Hydref 2025. Bydd fersiwn terfynol y Cod hwn yn cael ei gyhoeddi wedi hynny.**

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Cod Ymarfer drafft hwn yn destun ymgysylltu a newidiadau ychwanegol y gellid eu gwneud i'r Bil. Cyn ei gyhoeddi'n derfynol, yn unol â'r Bil fel y mae ar hyn o bryd gerbron y Senedd, bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar God drafft ac wedyn efallai y gwneir newidiadau ychwanegol.

© Hawlfraint y goron 2025.

# 1. Rhagymadrodd

## 1.1 Am y cod hwn

- Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn (‘CoP’ neu ‘Cod’) **yn dilyn Cydsyniad Brenhinol o'r Ddeddf Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill) 2025** (“y Ddeddf”) sy'n cyflwyno trefn cosbau sifil newydd ar gyfer twyll yn erbyn y sector cyhoeddus.

- Mae'r Cod hwn yn darparu rhagor o fanylion am sut y defnyddir pwerau cosbi sifil yn y Ddeddf. Mae'r Cod hwn yn esbonio sut y bydd Swyddogion Awdurdodedig Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA) yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch eu pwerau i roi cosbau sifil.

- **Mae Adran 51** o'r Ddeddf yn caniatáu i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet (“y Gweinidog”) osod cosbau ar unigolyn os y'i bodlonir, ar sail tegygolrwydd, fod yr unigolyn wedi cyflawni, neu y cynllwyniodd i gyflawni, twyll er mwyn:

    - o derbyn neu helpu unigolyn arall i dderbyn taliad sydd neu, os na chafodd y taliad ei wneud, a fyddai wedi bod, yn swm adferadwy

  - o neu â'r canlyniad fod gan awdurdod cyhoeddus hawl i hawlio unrhyw swm adferadwy arall.

- **Mae Adran 51** o'r Ddeddf yn caniatáu i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet osod cosbau ar unigolyn os y'i bodlonir, ar sail tebygolrwydd, fod yr unigolyn wedi

  - o heb esgus rhesymol, methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir o dan Bennod 2 (pwerau ymchwiliadol) neu Bennod 4 (dulliau adfer) yn y Ddeddf.

- **Mae Adran 63** o'r Ddeddf yn gofyn i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet gyhoeddi Cod am:

  - o weinyddu cosbau, gan gynnwys sut y gwneir penderfyniadau i roi cosbau;

    o sut y pennir symiau cosbau;

  - o amgylchiadau y mae'r gweinidog yn eu hystyried, ac i ba raddau y byddai'n briodol i ostwng swm cosb o ganlyniad i ymddygiad cydweithredol gan yr unigolyn y mae'r gosb wedi ei gosod arno.

- Mae'r Cod hwn yn cynnwys gwybodaeth am ddefnyddio a chymhwyso rhannu gwybodaeth, a phwerau casglu ac adfer dyledion, fel yr amlinellir yn y Ddeddf, i'r graddau y mae'n berthnasol i ddefnydd a rhoi cosbau. Bydd gwybodaeth ychwanegol am y pwerau hyn yn cael ei hamlinellu mewn cyfarwyddyd a gyhoeddir ar wahân.

# 2. Hawliau Gweithdrefnol

## 2.1 Hawliau Gweithdrefnol

- Mae'r Ddeddf yn amlinellu hawliau gweithdrefnol unigolyn neu sefydliad y mae cosb wedi ei gosod arnynt. Mae'r rhain yn hawliau wedi'u pentyrru, sy'n golygu bod rhaid eu cyrchu mewn trefn benodol, fel yr amlinellir isod. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i:

    - o wneud sylwadau (gweler adran 9 o'r Cod hwn).
    - o gofyn am adolygiad mewnol (gweler adran 10 o'r Cod hwn).
    - o gwneud apêl (gweler adran 11 o'r Cod hwn).
    - o gofyn am estyniad i'r terfyn amser penodedig y mae'n rhaid cyflwyno apêl ar ei gyfer (gweler adran 11 o'r Cod hwn).

# 3. Goruchwyliaeth

## 3.1 Swyddogaeth Goruchwylio

- I sicrhau bod pwerau o fewn y Ddeddf yn cael eu defnyddio'n briodol ac fel y bwriedir, **Mae Adran 65** o'r Ddeddf yn gofyn i Unigolyn Annibynnol gael ei benodi i gyflawni adolygiadau o sut maen nhw'n cael eu hymarfer.

- Mae'r PSFA wedi creu'r rôl **Adolygwr Annibynnol Gorfodaeth PSFA** i fodloni'r rhwymedigaeth statudol hon. Mae'r Ddeddf yn gofyn i'r Adolygwr Annibynnol greu adroddiadau ar ganfyddiadau eu hadolygiadau, gan gynnwys unrhyw argymhellion cysylltiedig ar gyfer gwella, a rhoi'r rhain i'r Gweinidog. Mae'n rhaid i'r Gweinidog wedyn gyflwyno'r adroddiadau gerbron y Senedd.

- Bydd cyfarwyddyd ychwanegol yn amlinellu rhagor o fanylion am yr Adolygwr Annibynnol a sut y bydd yn cael ei gynorthwyo gan y PSFA.

- Bydd cyfarwyddyd ychwanegol hefyd yn amlinellu'r trosolwg annibynnol ychwanegol fydd yn cael ei ddarparu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub ei Fawrhydi (HMICFRS).

# 4. Cwmpas

## 4.1 Rhychwant Tiriogaethol

- Mae Rhan 1 y Ddeddf yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

## 4.2 Pwy sydd yng nghwmpas cosbau

- Gellir rhoi cosb sifil am unrhyw drosedd twyll yn erbyn y sector cyhoeddus sy'n bodloni'r safon sifil o brawf. Gallai hyn arwain at gosbau i unigolion yn ogystal â sefydliadau ag endid cyfreithiol ar wahân, megis busnesau, partneriaethau, elusennau, a chymdeithasau eraill.

- Ni ellir rhoi mwy nag un gosb am yr un drosedd i unigolion a chyrff corfforaethol. Lle gellir nodi bod cyfarwyddwr neu swyddog arall o gwmni neu gorff arall (ar sail tebygolrwydd) yn gyfrifol am drosedd y mae'r cwmni wedi ei gyflawni, yna gall y swyddog gael ei gosbi yn ogystal â, neu yn hytrach na'r cwmni.

**Ymdrin â phobl ifanc a phartïon wedi'u diogelu**

- Fel yr amlinellwyd yn y cyfarwyddyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron, mae unigolion o dan 18 oed ond dros oedran cyfrifoldeb sifil a throseddol wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad o unigolyn. Yng nghyd-destun y Cod hwn, gellir rhoi cosb sifil os ydynt yn cyflawni trosedd o dwyll yn erbyn y sector cyhoeddus. Wedi eu cynnwys hefyd mae 'partïon wedi eu diogelu', sy'n golygu rhywun sydd â diffyg capasiti i gynnal eu materion eu hunain. Mae rheolau arbennig mewn achosion sifil i sicrhau yr ymdrinnir â phobl o dan 18 oed a phartïon wedi eu diogelu yn briodol.

  - Bydd y PSFA yn sicrhau ei fod yn dilyn pob rheol briodol wrth ymdrin â phobl ifanc a phartïon wedi eu diogelu, yn gyffredin ag ymarfer ar draws llywodraeth.

## 4.3 Troseddau y gellir rhoi cosbau ar eu cyfer

- Mae Adran 74 yn diffinio "twyll" at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf. Mae'r diffiniad yn cynnwys:

- o y troseddau yn adrannau **1** ac **11** o **Ddeddf Twyll 2006** (twyll a chael gwasanaethau yn anonest)
- o y troseddau yn adrannau **6** a **7** o **Ddeddf Twyll 2006** (meddu ar, gwneud neu gyflenwi gwrthrychau i'w defnyddio mewn twyll)
- o y drosedd mewn cyfraith gyffredin o gynllwynio i dwyllo.

- Pan fydd unrhyw un o'r troseddau hyn yn cael eu cyflawni yn erbyn awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru a Lloegr, a gellir profi hynny i'r safon sifil, gellir cosbi'r drosedd â chosb sifil.

- Ar gyfer troseddau adran 6 a 7, a all fod, ar eu pennau eu hunain, heb werth ariannol a ellir ei ddefnyddio i gyfrifo cosb, y gwerth a bennir fydd gwerth unrhyw drosedd o dwyll sy'n digwydd o ganlyniad i droseddau adran 6 neu 7 a gyflawnir, naill ai gan yr unigolyn neu gan un arall.

- Am y drosedd cynllwynio, gall cosb gael ei osod ar unrhyw neu bob unigolyn sy'n rhan o'r cynllwyn. Gall cosbau fod o lefelau gwahanol i bob unigolyn gan ddibynnu ar ffeithiau'r achos fel y maent yn berthnasol i'r unigolyn.

- Nid yw'n angenrheidiol i'r twyll fod yn llwyddiannus i drosedd gael ei chyflawni neu i gosb sifil gael ei gosod. Mae'n ddigon fod yr unigolyn neu unigolion wedi cyflawni gweithred euog gan fwriadu y byddai'n llwyddiannus (**gweler Adran 51)**. Yn y fath achosion, gall cosb gael ei gosod trwy gyfeirio at y swm y byddid wedi ei gael trwy'r twyll. Gellir amcangyfrif y swm hwn.

# 4.4 Gwahaniaethu rhwng twyll a gwall

- Er mwyn i weithred fod yn dwyll mae angen bod rhywfaint o anonestrwydd fel bod y gosodiad ffug, hepgor rhywbeth neu gamddefnyddio safle wedi digwydd yn ymwybodol a gyda'r bwriad o dwyllo awdurdod cyhoeddus perthnasol. Gellir honni bod twyll i'r safon sifil o fod wedi digwydd 'ar sail tebygolrwydd.' Hon yw'r safon profi y mae'n rhaid ei bodloni er mwyn ystyried cosb sifil.

- Bydd Swyddogion Awdurdodedig yn gwahaniaethu rhwng twyll a gwall:

  - o **Mae gwall** yn digwydd lle darperir gwybodaeth anghywir neu anghyflawn, neu brosesu gwybodaeth yn anghywir sydd â chanlyniad materol, megis y swm anghywir yn cael ei dalu, ond lle nad oes awgrym o fwriad twyllodrus.

- o **Mae gwall swyddogol** yn digwydd pan fydd yr wybodaeth gywir wedi ei darparu gan yr unigolyn ond bod yr wybodaeth hon wedi ei phrosesu'n anghywir gan swyddog.
- o **Mae gwall unigol** yn digwydd pan fydd unigolyn wedi darparu gwybodaeth anghywir neu anghyflawn ond nad oes awgrym o fwriad twyllodrus.

## 4.5 Categorïau o gosbau y gellir eu rhoi

● **Mae Adran 51** y Ddeddf yn caniatáu i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet osod cosbau ar unigolyn os y'i bodlonir, ar sail tebygolrwydd, bod yr unigolyn wedi cyflawni, neu wedi cynllwynio i gyflawni, twyll er mwyn:

- o derbyn neu helpu unigolyn arall i dderbyn taliad sydd neu, pe bai'r taliad heb ei wneud, a fyddai wedi bod, yn swm adenilladwy; neu
- o sydd â'r canlyniad fod gan awdurdod cyhoeddus yr hawl i hawlio unrhyw swm adenilladwy arall.

● Gellir rhoi cosbau ar wahân (Adran 54) am ddiffyg cydymffurfio â gofyniad a osodir gan neu o dan:

- o Bennod 2 (pwerau ymchwiliadol) neu
  - − Er enghraifft, gellir rhoi cosb am beidio â darparu gwybodaeth neu am fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth.
- o Pennod 4 (dulliau adennill)
  - − Er enghraifft, gellir rhoi cosb i gyflogwr os yw'n methu â chydymffurfio â gorchymyn didyniad o enillion neu i fanc os yw'n methu â chydymffurfio â gorchymyn didyniad enillion.

## 4.6 Defnyddio cosbau ag effaith ôl-weithredol

● Gellir rhoi cosbau sifil am weithredoedd o dwyll a ddigwyddodd cyn i'r Ddeddf hon ddod i rym ond a oedd yn drosedd yn groes i Ddeddf Twyll 2006, neu'r drosedd yn y gyfraith gyffredin o gynllwynio i dwyllo, adeg yr ymddygiad. Darperir rhagor o fanylion yn Adran 99 o'r Ddeddf.

# 5. Swyddogion Awdurdodedig

## 5.1 Swyddogion Awdurdodedig

- Mae Swyddogion Awdurdodedig yn unigolion dynodedig o fewn y PSFA sy'n gallu gweithredu'r pwerau a roddir iddynt o fewn y Ddeddf hon. O dan **adran 66** maent wedi eu hawdurdodi gan y Gweinidog i:

    - o benderfynu rhoi hysbysiad o fwriad o dan adran 57(2)
    - o penderfynu gosod cosb o dan adran 51 neu 60 (ac rhoi hysbysiad at y diben hwnnw o dan adran 60).

## 5.2 Uwch Swyddogion Awdurdodedig

- Pan ofynnir am adolygiad mewnol o benderfyniad Swyddogion Awdurdodedig (**gweler Adran 9** o'r Cod hwn), bydd hyn yn cael ei gyflawni gan Uwch Swyddog Awdurdodedig. Mae'n gyfrifol am adolygu a chymeradwyo'r penderfyniad i roi hysbysiad o fwriad (adran 57(2)) neu i osod cosb sifil (adran 51 neu 54), gan gynnwys y swm. Bydd Uwch Swyddogion Awdurdodedig yn 'adolygu' trwy wirio y cafodd y penderfyniad ei wneud a'i weithredu yn gywir. Bydd Uwch Swyddogion Awdurdodedig yn 'cymeradwyo' trwy gytuno neu dderbyn y penderfyniad, yn swyddogol, ac yn ysgrifenedig, gan gytuno â'r penderfyniad neu dderbyn ei fod yn un boddhaol.

- Darperir sicrwydd yn achos y swyddogaeth hon gan **Adolygwr Annibynnol Gorfodaeth y PSFA** (**gweler Adran 64 a 65** o'r Ddeddf). Darperir rhagor o wybodaeth am y rôl hon mewn cyfarwyddyd ychwanegol, ar wahân.

## 5.3 Datblygiad Proffesiynol

- Gofynnir i Swyddogion Awdurdodedig ymgymryd â hyfforddiant gwrth-dwyll perthnasol a meddu ar y cymwysterau perthnasol i ddod yn aelodau o Broffesiwn Gwrth-Dwyll y Llywodraeth. Gofynnir i Swyddogion Awdurdodedig ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus a glynu wrth safon foesegol gyffredin i gynnal aelodaeth.

    - Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hyn, hyffordiant ar sut i:

        o asesu a gosod cosb sifil yn rhesymol ac yn gymesur o sut i ddiogelu hawliau unrhyw un y gosodir cosb arno o a sut i sicrhau bod unigolion sy'n agored i niwed yn cael eu trin yn deg.

        o defnyddio'r pwerau adennill dyled

- Sylwer: ni fydd yr hyfforddiant uchod yn cael ei ddarparu o reidrwydd drwy'r GCFP.

- Trwy fod yn aelod, bydd gan Swyddogion Awdurdodedig fynediad ehangach at gyfleoedd dysgu a datblygu, a byddant yn gallu cymryd arfer gorau gan arbenigwyr ar draws y gymuned wrth-dwyll. Gallwch ddarllen rhagor am Broffesiwn Gwrth-Dwyll y Llywodraeth yma.

## 5.4 Pan atgyfeirir achos at y PSFA

- Mae'r PSFA yn gweithredu ar gais awdurdodau cyhoeddus eraill trwy atgyfeiriadau. Gall honiadau neu amheuon o dwyll gael eu hatgyfeirio at y PSFA gan awdurdod cyhoeddus ar unrhyw gam.

- Nid yw'n ofynnol i'r PSFA fabwysiadu pob achos. Bydd pob atgyfeiriad yn mynd trwy broses mabwysiau achosion safonol. Defnyddir hon yn offeryn cymorth i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau neu a ddylid ymchwilio i neu gymryd camau gorfodi neu adennill yn yr achos.

- Mae ffactorau y bydd y PSFA, fel arfer, yn eu hystyried wrth fabwysiadu achos posibl yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain):

  - o **y gwasanaeth gofynnol**: gan gynnwys adolygiad o berthnasedd i Fandad ac awdurdodaeth y PSFA.
  - o effaith ariannol, cymhlethdod yr achos, y posibilrwydd o adennill asedau, ac asesiad cychwynnol o'r tebygolrwydd o ganlyniad llwyddiannus.
  - o effaith ar **ymddiriedaeth y cyhoedd**, **amlder a lledaeniad** y twyll posibl, pa mor **newydd** yw mecanwaith y twyll, **proffil** y twyllwr (os yw'n hysbys), **ei allu i dyfu**, addasrwydd yr Uned Orfodi i fabwysiadu'r achos, **atal niwed ychwanegol**, cyfrannu at bortffolio cytbwys o achosion, ac unrhyw ffactorau neu ystyriaethau perthnasol eraill.

- Bydd y PSFA hefyd yn ymgymryd ag:

  - o **Asesiad bregusrwydd:** yr ymgymerir ag ef i asesu a yw unigolion agored i niwed yn rhan o'r achos, a sut y gallai camau a gymerir gan PSFA yn ystod ymchwilio, gorfodi ac adennill dyled effeithio arnynt.
  - o **Gallai asesiad risg:** yr ymgymerir ag ef i nodi risgiau neu heriau ac a allai effeithio ar yr ymchwiliad neu broses orfodi.
  - o **Asesiad budd cyhoeddus:** A yw er budd cyhoeddus i fwrw ymlaen ag achos. Nid oes diffiniad safonol o'r ‘budd cyhoeddus’ a gall yr ystyriaeth hon fod yn wahanol ym mhob achos.

- Bydd y PSFA fel arfer yn ceisio penderfynu a ddylid mabwysiadu achos o fewn 28 diwrnod. Os na chaiff achos ei fabwysiadu, gallai gweithredu amgen gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain:

  o Argymhellion o **gamau mewnol** y gall yr adran atgyfeirio eu cymryd.

  o Cyngor ar arfer gorau diogelu rhag twyll.

  o **Atgyfeiriad** at Adran arall yn y Llywodraeth.

# 5.5 Sut yr asesir bod yn agored i niwed?

- Ystyrir bregusrwydd unigolyn trwy gydol y broses mabwysiadu achos, asesu achos a chylch bywyd ymchwiliad, gan gynnwys penderfyniadau i geisio canlyniad troseddol neu gyfiawnder sifil.

- Bydd Swyddogion Awdurdodedig yn cynnal asesiadau bregusrwydd ar ddechrau pob ymchwiliad. Byddant yn adolygu unrhyw dystiolaeth o fod yn agored i niwed yn ariannol, yn gymdeithasol neu'n bersonol. Bydd yr asesiad yn pennu y ffordd orau o ymgysylltu â'r unigolyn ac effaith gweithredu gorfodaeth dilynol. Adolygir bregusrwydd yn rheolaidd wrth i achos fynd rhagddo a diwedderir yr asesiad bregusrwydd yn rheolaidd.

- Mae gan y PSFA strategaeth ar gyfer ymdrin ag unigolion agored i niwed. Bydd gan staff fynediad at yr un hyfforddiant **Swyddogaeth Rheoli Dyledion y Llywodraeth** ganolog â phob adran yn y llywodraeth ac ALB, gan sicrhau bod staff wedi'u harfogi i ymdrin â chwsmeriaid agored i niwed. Bydd y PSFA yn glynu wrth arfer gorau trawslywodraethol wrth nodi, asesu a rheoli unigolion agored i niwed a chydgyfeirio â safonau llywodraeth presennol, gan gynnwys offer fel y **Pecyn Cymorth Bregusrwydd Swyddogaeth Rheoli Dyledion y Llywodraeth HMT (GDMF) a'r Pecyn Cymorth Camdriniaeth Economaidd**, y cafodd y ddau eu datblygu ochr yn ochr â'r sector cyngor ar ddyledion a llywodraeth leol**.** Mae'r cynhyrchion hyn yn sicrhau bod staff wedi'u harfogi i ymdrin â sefyllfaoedd heriol yn y dull mwyaf priodol.

- Er y bydd y PSFA yn defnyddio'r wybodaeth ar gael iddo i nodi unigolion sy'n agored i niwed, efallai na fydd unigolyn yn gwybod ei fod yn destun ymchwiliad. Yn aml, bydd angen cynnal yr agwedd hon er mwyn, er enghraifft, atal cuddio neu ddinistrio tystiolaeth. Ar ba gyfnod bynnag y gwneir neu y daw unigolyn yn ymwybodol ei fod o dan ymchwiliad gan y PSFA, caiff ei wahodd i gyflwyno gwybodaeth ynghylch ei fregusrwydd, os yw'n berthnasol, gan gynnwys unrhyw anghenion cymhleth neu gymorth ychwanegol gofynnol. Bydd y PSFA yn cynnal gweithdrefnau ar gyfer derbyn datgeliadau (gan gynnwys trwy drydydd partïon).

- Bydd Swyddogion Awdurdodedig yn cael eu hyfforddi i nodi ‘ciwiau’ sy'n dangos y gall fod angen cymorth ar unigolion, gan gynnwys:

    - o **ffactorau unigol**: er enghraifft, crybwylliadau didaro neu gyfeirio at salwch, anabledd neu nam; cysylltiad â'r sector iechyd neu sector gofal cymdeithasol; cyfeiriad at dderbyn buddion penodol.
    - o **ciwiau ymddygiadol**: er enghraifft, arwyddion o orbryder, rhwystredigaeth, neu ddryswch, gofyn am ailadrodd gwybodaeth.
    - o **amgylchiadau ehangach**: er enghraifft, digwyddiadau bywyd (megis amser mewn ysbyty, profedigaeth, siociau incwm), sefyllfaoedd tai ansefydlog, arwyddion o gamdriniaeth gorfforol, lafar, feddyliol neu economaidd. Am ragor o wybodaeth am gamdriniaeth economaidd, gweler y Pecyn Cymorth Camdriniaeth Economaidd Sector Cyhoeddus GDMF
    - o **gweithredoedd sefydliadol**: cyfeiriad gan y cwsmer at bethau sydd wedi cael eu gwneud neu beidio â chael eu gwneud sydd wedi achosi anhawster.

- **Mae Adran 16.2** o'r canllaw hwn yn amlinellu rhagor o fanylion penodol i fynd i'r afael â bregusrwydd yn ystod y broses adennill dyled.

# 5.6 Bod yn agored i niwed mewn cyfweleion

- Gall Ymchwilwyr Awdurdodedig y PSFA ymgymryd â chyfweliadau ymchwiliadol ag unigolion a amheuir o dwyll. Gall y rhain fod yn gyfweliadau gwirfoddol neu gyfweliadau o dan rybuddiad. Mae Cod Ymarfer C PACE yn amlinellu diffiniad o 'unigolyn agored i niwed' at ddibenion y fath weithgarwch, ac mae'n darparu canllaw ar ddiogelu hawliau a lles unigolion o'r fath. Darperir y diffiniadau isod. Bydd y PSFA yn dilyn yr agwedd hon dan amgylchiadau lle mae'n briodol gwneud hynny.

    - https://www.gov.uk/government/publications/pace-code-c-2019

        - o mae ‘bod yn agored i niwed’ yn gymwys i unrhyw unigolyn sydd, oherwydd cyflwr iechyd meddyliol neu anhwylder meddyliol
        - o Gall unigolyn fod yn agored i niwed o ganlyniad i gyflwr iechyd meddwl neu anhwylder meddyliol. Yn yr un modd, nid yw'n golygu yn unig oherwydd nad oes gan unigolyn , neu nad yw'n hysbys fod ganddo, unrhyw gyflwr neu anhwylder o'r fath, nad yw'n agored i niwed at ddibenion y Cod hwn. Mae felly'n bwysig fod swyddog y ddalfa yn achos unigolyn a ddelir neu'r swyddog sy'n ymchwilio i'r drosedd yn achos unigolyn nad yw wedi cael ei arestio neu ei ddal, fel y bo'n briodol, yn ystyried fesul achos, a allai unrhyw un o'r ffactorau a

ddisgrifir ym mharagraff 1.13(d) fod yn berthnasol i'r person dan sylw. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i'r swyddog ystyried amgylchiadau neilltuol yr unigolyn a sut y gallai natur yr ymchwiliad effeithio arno ac ystyried y bydd angen oedolyn priodol ar ieuenctid, oherwydd eu hoedran.

# 6. Pwerau Gwybodaeth

- Mae Pennod 2 y Ddeddf yn amlinellu'r wybodaeth y gall y PSFA ei chasglu, ei chael a'i rhannu. Mae'n amlinellu cyfres o ofynion hefyd i unigolion eu dilyn. Os nad yw unigolion sy'n ddarostyngedig i'r pwerau ym Mhennod 2 yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, wedyn gellir rhoi cosb diffyg cydymffurfio.

# 7. Cosbau yn achos Twyll

- Bydd y PSFA yn trin pob achos o amheuaeth o dwyll ar ei rinweddau ei hun, gan asesu'r ffeithiau i benderfynu ar ganlyniad sy'n deg, sy'n gymesur ac sy'n gorfodi'r gyfraith orau.

## 7.1 Pennu a yw achos yn bodloni safon brawf sifil

- Os yw achos yn cael ei fabwysiadu, bydd yn cael ei asesu a gweithredir arno gan y PSFA. Bydd pob ymchwiliad yn dechrau a'r rhagdybiaeth y gallant gael canlyniad cyfiawnder troseddol. Bydd unrhyw achos sy'n aros yn achos troseddol yn cael ei ddatblygu i'r safon droseddol ar gyfer prawf. Gall y PSFA ymchwilio i'r rhain neu droseddau Deddf Twyll eraill gyda golwg ar geisio erlyniad troseddol. I brofi twyll i safon troseddol mae angen bod gradd uchel o brawf, fel bod gweithred neu hepgoriad yn cael ei brofi 'y tu hwnt i amheuaeth resymol'.

- Mae y PSFA yn un o nifer o adrannau ac asiantaethau llywodraeth sy'n rhoi cosbau ariannol i'r safon sifil.

- Gall y PSFA benderfynu ceisio erlyniad neu osod cosb sifil, ond ni all wneud y ddau. Gellir rhoi cosbau sifil pan na ellir profi achos 'y tu hwnt i amheuaeth resymol' ond yn hytrach mae'n cyrraedd y safon profi sifil, hynny yw, 'ar sail terbygolrwydd' mae'n fwy tebygol na pheidio y digwyddodd digwyddiad. Cyfrifoldeb y Swyddog Awdurdodedig yw datblygu tystiolaeth sy'n bodloni'r safon profi sifil er mwyn rhoi cosb.

- Asesir safon profi sifil trwy asesu'r dystiolaeth a ddatblygwyd yn ystod yr ymchwiliad. Proses barhaus yw hon. Mae pob achos yn wahanol, ac nid oes ‘prawf safonol’. Llywir y broses o asesu a yw achos yn bodloni'r safon profi sifil ofynnol gan brofiad proffesiynol, arbenigedd, crebwyll, a gwrthrychedd ymchwiliwr, ar sail y gyfraith, a brofir gan uwch swyddogion a chynghorwyr cyfreithiol.

- Ni fydd achos sy'n bodloni'r safon profi ofynnol yn arwain at weithredu ar unwaith nac yn awtomatig. Gall ffactorau eraill gael eu hystyried yn y penderfyniad ar ba gamau i'w cymryd, gan gynnwys budd y cyhoedd, bregusrwydd yr unigolyn, a gofynion darparu adnoddau.

- Bydd y PSFA yn dilyn yr egwyddorion cyffredinol isod wrth asesu'r safon o brawf:

  - o bydd pob achos yn cael ei ystyried ar ei ffeithiau ei hun ac ar ei rinweddau ei hun.
  - o mae'n rhaid i'r ymchwiliad a'r ymchwilwyr fod yn deg a gwrthrychol, heb eu dylanwadu gan safbwyntiau personol neu ystyriaethau allanol, ac yn gytbwys eu dull ym mhob achos.
  - o Bydd Swyddogion Awdurdodedig yn ceiso cyngor fel y bo'n briodol gan arbenigwyr pwnc, cynghorwyr cyfreithiol, ac arbenigwyr i sicrhau eu bod yn deall y dystiolaeth, a bod yn siŵr bod y safon profi sifil ofynnol wedi ei bodloni.
  - o Bydd Swyddogion Awdurdodedig yn diogelu hawliau unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn achos. Mae hyn yn cynnwys hawl unigolyn i beidio â'u hargyhuddo eu hunain.

- Wrth asesu tystiolaeth i bennu a yw'r safon sifil wedi ei bodloni, bydd y PSFA yn ystyried nifer o ffactorau penodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

  - o cryfder a grym perswâd y dystiolaeth
  - o a yw holl elfennau'r drosedd yn bresennol
  - o hygrededd y tystion
  - o a ganiateir y dystiolaeth yn ganiatadwy yn gyfreithiol ac yn berthnasol i fater
  - o cymwysterau, methodoleg, a dibynadwyedd tystion arbenigol.

## 7.2 Sefydlu'r golled neu'r budd

- Gan fod swm cosb am dwyll yn cael ei bennu gan y golled i'r awdurdod cyhoeddus neu'r budd a enillir gan y twyllwr, bydd y PSFA yn penderfynu'r swm hwn (y gellir ei amcangyfrif) cyn dechrau cyfrifiad cosb.

- Mae sawl dull y gellir sefydlu swm drwyddo, gan gynnwys:

  o **yn wirfoddol**, trwy dderbyn penderfyniad y PSFA o swm

  o trwy ddatrysiad neu gytundeb datrys anghydfod, lle cytunir ar swm

  o trwy **drafodion** ansolfedd

  o trwy gyflwyno neu barhau ag **achos mewn llys neu dribiwnlys** i bennu swm

  o yn dilyn achosion a ddygir gan eraill, lle mae swm wedi ei benderfynu

- Mewn unrhyw drafodaeth neu achos i bennu swm, mae'r PSFA yn gweithredu ar ran yr awdurdod cyhoeddus sydd wedi cael ei dwyllo.

## 7.3 Sut y cyfrifir lefelau cosb twyll

- Mae cosbau am dwyll yn cael eu pennu gan gyfeirio at y golled ariannol a ddioddefwyd gan yr awdurdod cyhoeddus neu'r budd a enillwyd gan yr unigolyn neu unigolion yn cyflawni neu'n cymryd rhan yn y drosedd o dwyll **(gweler adran 8)**. Uchafswm y gosb a ganiateir am drosedd o dwyll yw 100% o werth y golled a achoswyd i awdurdod cyhoeddus neu, os yw'n uwch, y **budd** a enillwyd gan yr unigolyn, o ganlyniad i'r twyll dan sylw. Gall cosb fod yn unrhyw swm hyd at ac yn cynnwys y ganran honno. Amlinellir gwybodaeth ychwanegol ar sut bydd lefel y gosb yn cael ei phennu isod. Enghraifft o'r ail yw llog a gronwyd o arian a gafwyd yn dwyllodrus o awdurdod cyhoeddus yr ymchwiliwyd iddo ers hynny  Mae'r ‘llog’ hwn yn wahanol i'r llog fydd yn cael ei gymhwyso gan y PSFA, fel yr amlinellir yn adran 13.3 isod, sy'n cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i hyn, y llog a ddefnyddir yn achos taliadau hwyr.

- Gan fod y PSFA yn mynd i'r afael ag amrediad o fathau o dwyll a gyflawnir yn erbyn awdurdodau cyhoeddus, bydd pob achos yn wahanol. Bydd pob cosb a osodir felly yn neilltuol i'r achos a bydd y PSFA yn ceisio gosod lefel gosb sy'n ymateb yn rhesymol a chymesur i amgylchiadau'r achos. Bydd y ffordd y mae cosb yn cael ei chyfrifo yr un peth ar gyfer pob cosb a osodir.

  - Yn y Cod hwn:

- o **mae 'rhesymol'** yn golygu y byddai unigolyn cyffredin rhesymol yn ystyried y gosb arfaethedig yn briodol i'r drosedd
- o **mae 'cymesur'** yn golygu bod perthynas rhwng gwerth y gosb arfaethedig ac asesiad cyfannol o bob ffactor arall sy'n bresennol yn yr achos. Nid yw'n golygu cyfran o werth swm y twyll.

- Penderfynir ar lefel y gosb trwy gyfeirio at amrywiaeth o ffactorau a welir yn yr achos, gan gynnwys
  - o Cyfanswm y golled
  - o Hyd y drosedd
  - o Effaith ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys targedu cyllid brys
  - o Effaith ar ffrydiau cyllid
  - o Ymddygiad y troseddwr, gan gynnwys galluogi eraill; i gyflawni twyll a bod mewn safle o ymddiriedaeth
  - o Unrhyw ffactor perthnasol arall, gan gynnwys ffactorau sy'n lliniaru a gwaethygu

- Caiff y ffactorau hyn eu pwysoli yn amrediadau isel, canolig ac uchel yn dibynnu ar y ffeithiau, a all filwrio o blaid cosb is neu uwch. Bydd y PSFA yn bwrw golwg gytbwys i ddod i benderfyniad ar yr achos yn gyffredinol.

- Darperir enghraifft o sut y gellir asesu un o'r ffactorau uchod isod. Datblygir canllawiau ychwanegol i gynorthwyo Swyddogion Awdurdodedig yn eu hasesiad o lefel cosb resymol a chymesur. **Dangosol yn unig yw hyn a bydd yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.**

| **Ffactorau i'w cymryd i ystyriaeth** | **Cosb 'isel' 0-25%** | **Cosb 'Ganolig' 25- 50%** | **Cosb 'uchel' 50- 75%** | **'Uchafswm' cosb 75%- 100%** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **wrth bennu lefel y gosb** | | | | |
| ***2. Asesiad trosedd (hyd y drosedd):***<br><br>*pa mor hir wnaeth y drosedd barhau? Oedd e'n ymosodiad untro ar gyllid cyhoeddus neu oes ymosodiadau lluosog wedi digwydd?* | E.e. grant neu fenthyciad untro a gymerwyd gan unigolyn | E.e. caffael untro twyll, chwyddo anfoneb gan unigolyn/cwmni am gyfnod byr | E.e. twyllau lluosog e.e. yn erbyn y GIG am gyfnod estynedig | E.e. troseddau lluosog cymhleth blaenorol am dwyll, tystiolaeth sylweddol o fwriad cyson i dwyllo sefydliadau sector cyhoeddus lluosog |

- Pan fydd yr holl ffactorau wedi eu hasesu, bydd Swyddogion Awdurdodedig yn nodi'r categori cosb cyfredol Er enghraifft, os cafodd achos sgôr o 6 'uchafswm', 1 'uchel' a 0 'canolig', gellid ei gategoreiddio yn addas i dderbyn cosb uchafswm (75-100% o'r twyll). Ac os cafodd achos sgôr 2 isel, 4 canolig ac 1 uchel, gellid ei ddosbarthu'n un canolig. Caiff achosion nad oes ganddynt gategori cyfredol hawdd i'w nodi eu cyflwyno i dîm Uwch Arweinyddiaeth yr Uned Orfodi am drafodaeth ac arweiniad ychwanegol.

## 7.4 Hysbysiadau o fwriad

- Cyn gosod cosb ariannol ar unigolyn am dwyll bydd y PSFA yn rhoi gwybod i'r unigolyn am ei fwriad i wneud hynny trwy 'hysbysiad o fwriad' **ysgrifenedig** (gweler **Adran 59** o'r Ddeddf) a fydd yn:

    - o esbonio'r **rhesymau** dros osod y gosb
    - o rhoi manylion **swm y gosb** a sut mae wedi cael ei chyfrifo
    - o esbonio bod gan yr unigolyn hawl i wneud **sylwadau**, ac yn rhoi manylion faint o amser sydd ganddo i wneud hynny

- Bydd yr hysbysiad yn esbonio'r rhesymau dros y gosb ariannol trwy grynhoi'r achos yn ddigon manwl i esbonio pam mae cosb yn briodol ac yn caniatáu i'r unigolyn wneud sylwadau ystyrlon. Y cyfnod statudol lleiaf ar gyfer gwneud

sylwadau yw 28 diwrnod ond dan rai amgylchiadau penodol, gall y PSFA ganiatáu rhagor o amser.

# 8. Sylwadau yn achos cosbau twyll sifil

## 8.1 Hawliau gweithdrefnol

- **Mae Adran 57** o Ddeddf **Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau a Adennill) 2025** yn creu hawliau gweithdrefnol i unrhyw unigolyn y rhoddir cosb arno. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i wneud sylwadau i'r PSFA cyn i gosb gael ei gosod.

- Gall unigolyn neu sefydliad wneud sylwadau am **unrhyw faterion perthnasol** cyn i gosb gael ei gosod. Gall y rhain gynnwys, er enghraifft, faterion cyfraith, ffeithiau'r achos, dehongli'r ffeithiau, sut mae'r Uned Orfodi wedi dilyn ei phrosesau, ac a yw'r gosb yn rhesymol a chymesur.

- Gall y PSFA ystyried ond distyrru sylwadau sy'n amherthnasol. Os diystyrir sylw, bydd y PSFA yn esbonio pam yn yr ymateb a ddychwelir i'r unigolyn neu fusnes o fewn 5 niwrnod gwaith o'r dyddiad y derbynnir y sylw.

- Mae'n rhaid i sylwadau fod yn ysgrifenedig a dylent geisio crynhoi pob pwynt y dymuna'r unigolyn eu bod yn cael eu hystyried, esbonio pam mae'r pwyntiau hyn yn berthnasol a sut mae'r unigolyn yn disgwyl i'r pwyntiau hyn effeithio ar benderfyniad achos neu lefel cosb. Dylai sylwadau hefyd gynnwys tystiolaeth ar gyfer unrhyw haeriadau o ffeithiau a darparu copïau o ddogfennau ategol yn ôl y gofyn, gydag adrannau perthnasol wedi'u hamlygu fel y bo'n briodol. Mae'n rhaid i sylwadau gael eu gwneud trwy e-bost i enforcementinvestigations@cabinetoffice.gov.uk

- Ni chaniateir sylwadau wyneb yn wyneb, fel arfer, ond gellid eu hystyried. Mater i'r PSFA yn llwyr yw penderfynu a ddylid cytuno i sylwadau wyneb yn wyneb. Os yw parti yn teimlo eu bod o dan anfantais trwy fethu â gwneud sylwadau wyneb yn wyneb gall gyfleu hyn i'r Uned Orfodi, gan gynnwys unrhyw ddatganiadau ac ystyriaethau bregusrwydd fel yr amlinellir yn adrannau 5.5 a 5.6. Bydd y PSFA yn dogfennu cyn unrhyw sylwadau wyneb yn wyneb, a all gynnwys recordio unrhyw sgwrs, a gofyn i'r unigolyn gytuno bod y recordiad yn gywir ac yn adlewyrchu ei fwriadau cyn eu derbyn.

- Gall yr unigolyn a gosbir neu gynrychiolydd neu asiant wneud sylwadau. Mae tystiolaeth ysgrifenedig yn ofynnol fod cynrychiolydd neu asiant wedi cael ei benodi'n gywir cyn cyfathrebu â nhw am faterion yr unigolyn. Ni fydd y

PSFA fel arfer yn ystyried sylwadau gan drydydd parti oni bai eu bod yn rhan o'r sylwadau a wneir gan yr unigolyn a gosbir neu ei asiant neu unigolyn priodol yn achos unigolyn agored i niwed. Ystyrir bregusrwydd unigol fesul achos yn unol â dyletswyddau sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn sicrhau bod y PSFA ond yn ystyried sylwadau mae'r unigolyn neu sefydliad sy'n wynebu'r gosb am iddynt gael eu hystyried.

- Os gwneir sylwadau, bydd yr Uned Orfodi yn eu hystyried ac yn adolygu asesiad yr achos a lefel y gosb ariannol yn eu sgîl. Mae canlyniadau posib yn cynnwys:
    - ailgadarnhau'r penderfyniad i osod cosb,
    - gosod cosb ond newid swm y gosb arfaethedig
    - penderfynu peidio â gosod cosb
- Bydd y PSFA y ysgrifennu at yr unigolyn neu ei gynrychiolydd ag asesiad terfynol, gan ystyried y sylwadau.
- Os yw'r asesiad yn golygu y bydd cosb yn cael ei gosod o hyd bydd llythyr y penderfyniad yn cynnwys cyngor ar hawl yr unigolyn i geisio adolygiad gweinyddol. Os na wneir sylwadau o fewn y cyfnod penodedig, caiff y gosb ei chwblhau trwy anfon hysbysiad penderfyniad cosb. Os na cheisir adolygiad mewnol ar ôl derbyn yr hysbysiad hwn yn ystod y cyfnod penodedig, daw'r gosb yn daladwy yn unol â'r manylion yn yr hysbysiad cosb terfynol.

## 8.2 Cyfnodau amser ar gyfer sylwadau

- Mae gan dderbynnydd isafswm o 28 diwrnod calendr i wneud sylwadau ysgrifenedig gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad arno. Ni fydd y PSFA fel arfer yn derbyn sylwadau hwyr. Gall unigolion neu eu cynrychiolwyr ofyn am estyniad ac mae'n rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth i ategu'r cais hwnnw.

    - Bydd y PSFA fel arfer yn ystyried ac yn ymateb i sylwadau ar ôl dyddiad terfynol y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau. Bydd fel arfer yn anelu at wneud hyn o fewn 28 diwrnod calendr, fodd bynnag gall y cyfnod gael ei estyn os yw hyn yn angenrheidiol i sicrhau asesiad teg o'r sylwadau. Bydd y PSFA yn rhoi gwybod i'r unigolyn am unrhyw estyniad a bydd yn ymateb cyn gynted ag y gall.

- Bydd y PSFA yn sicrhau bod amserlenni yn gymesur ag amgylchiadau'r achos unigol ac yn sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi digon o amser i unigolyn neu fusnes wneud sylw ac atal twyllwyr rhag gohirio a rhwystro ymchwiliadau yn fwriadol.

## 8.3 Hysbysiadau o benderfyniadau cosb

- Os na wneir sylwadau o fewn y cyfnod isafswm o 28 diwrnod yn dilyn hysbysiad o fwriad, anfonir hysbysiad penderfyniad cosb. Bydd hyn yn:
    - o rhoi gwybod i'r derbynnydd y bydd cosb yn cael ei gosod
    - o cadarnhau swm y gosb
    - o esbonio'r rhesymau dros swm y gosb honno
    - o esbonio y gall y derbynnydd wneud cais am adolygiad mewnol o'r penderfyniad o fewn 28 diwrnod, gan ddechrau o'r diwrnod y rhoddir hysbysiad o'r penderfyniad
- Os gofynnir am adolygiad mewnol o'r penderfyniad, ni ellir gosod y gosb nes ar ôl cynnal adolygiad. Os na ofynnir am adolygiad o'r fath o fewn y cyfnod amser penodedig, gellir gosod y gosb a daw'n daladwy o fewn yr amserlen a nodir yn yr hysbysiad cosb terfynol. **Gweler adran 9** o'r Cod hwn ar sut i ofyn am adolygiad mewnol

# 9. Adolygiadau Mewnol o benderfyniadau cosbau twyll sifil

## 9.1 Proses

- Hon yw'r llinell gyntaf am apelio yn erbyn cosb sifil pan fydd sylwadau wedi eu gwneud. Er mwyn cael yr hawl apelio diweddarach i'r llys neu'r Tribiwnlys priodol, mae'n rhaid i'r unigolyn yn gyntaf sicrhau'r hawl hon o adolygiad. Os na wna hynny o fewn yr amserlen sydd ar gael ni all apelio yn uniongyrchol wedyn i'r llys perthnasol.

- Cynhelir yr adolygiad mewnol gan Swyddog Awdurdodedig ar raddfa uwch na'r Swyddog Awdurdodedig a wnaeth y penderfyniad, neu gan y Gweinidog yn bersonol. Nid ail ymchwiliad o'r achos yw'r adolygiad. Y nod yw asesu, ar sail yr wybodaeth ar gael ar y pryd, gan gynnwys unrhyw sylwadau a dderbyniwyd, a oedd y penderfyniad i osod cosb yn rhesymol.

- Mae gan unigolyn 28 diwrnod i ofyn am adolygiad, gan ddechrau â'r drannoeth y diwrnod y rhoddir hysbysiad o'r penderfyniad arno. Gall ofyn am estyniad i'r

amserlen dan amgylchiadau eithriadol, a bydd y PSFA yn ystyried ceisiadau o'r fath fesul achos.

- Mae'n rhaid i'r cais gynnwys:
  - o datganiad fod yr unigolyn yn dymuno defnyddio ei hawl i geisio adolygiad gweinyddol
  - o crynodeb o pam mae'n ceisio adolygiad
- Ni fydd yr adolygiad fel arfer yn ffordd o gyflwyno deunydd newydd, ac nid oes angen rhagor o ddeunydd gan yr unigolyn. Mae'n adolygu'r penderfyniadau mae'r PSFA wedi eu gwneud ar sail y deunydd sydd wedi cael ei ddefnyddio i asesu'r achos, ar ôl i'r unigolyn gael cyfle i gyflwyno unrhyw ddeunydd mae'n ei ddymuno adeg gwneud sylwadau.

## 9.2 Sut y cynhelir adolygiadau mewnol

- Cynhelir adolygiadau mewnol gan Swyddog Awdurdodedig sy'n uwch na'r Swyddog Awdurdodedig a roddodd yr hysbysiad cosb. Bydd gan y Swyddog Awdurdodedig fynediad at bob deunydd a ddefnyddir i ymchwilio i'r achos a phennu'r gosb. Gall yr uwch Swyddog Awdurdodedig ofyn am eglurhad ar ddeunyddiau neu wybodaeth sy'n bodoli ac sy'n berthynol i'r achos.

- Bydd y PSFA yn anelu at gwblhau'r rhan fwyaf o adolygiadau o fewn 2 fis. Fodd bynnag, gellir estyn y cyfnod hwn os bydd angen.

- Ar ôl adolygu'r achos, bydd yr uwch Swyddog Awdurdodedig yn gwneud penderfyniad. Gall hyn olygu:
  - o ategu'r penderfyniad i osod y gosb a'i swm
  - o ategu'r penderfyniad i osod y gosb, ond pennu swm gwahanol yn lle'r gosb wreiddiol
  - o canslo'r penderfyniad i osod y gosb.
- Caiff y penderfyniad hwn ei gyfleu yn ysgrifenedig i'r unigolyn. Os ategir y gosb, ar y swm gwreiddiol neu wahanol, cwblheir **y gosb a daw'n daladwy o fewn yr amserlen a nodir.**

# 10. Apeliadau yn achos Cosbau Twyll

## 10.1 Sut i apelio hysbysiad cosb

- Pam fydd adolygiad gweinyddol wedi dod i ben, gellir apelio cosb i'r Tribiwnlysoedd. Mae'n rhaid gwneud apêl yn ysgrifenedig, fel arfer, a'i derbyn gan y llys priodol neu Dribiwnlys Haen Gyntaf heb fod yn hwyrach na 28 diwrnod ar ôl i hysbysiad cosb gael ei roi gan ddechrau drannoeth y diwrnod mae'r Gweinidog yn cydymffurfio ag adran 59(3) o'r Ddeddf. Fodd bynnag mae'r Tribiwnlys yn cadw ei

  hawl bresennol i estyn yr amserlen hon.

- Mae Rheolau Gweithdrefnau'r Tribiwnlys, fel y'u diwygiwyd yn dilyn pasio'r Ddeddf hon, yn amlinellu'r hyn mae'n rhaid ei ddatgan yn hysbysiad o apêl, a'r hyn y mae'n rhaid ei ddarparu gyda'r hysbysiad o apêl:

- https://www.gov.uk/government/publications/general-regulatory-chamber tribunal-procedure-rules

- Nid yw'r PSFA yn rheoli'r broses apelio, sy'n fater i'r Tribiwnlys.

  - Gall y llys neu Dribiwnlys priodol:

    - o ategu'r hysbysiad cosb
    - o diddymu'r hysbysiad cosb
    - o amrywio swm yr hysbysiad cosb

# 11. Pryd na cheir defnyddio cosbau

## 11.1 Proses

- **Ni** roddir cosbau dan yr amgylchiadau isod, nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr:

    - o mewn ymateb i achosion, o wall gweinyddol - er enghraifft lle mae taliad wedl ei anfon yn anghywir oherwydd gwall system neu ddynol o fewn awdurdod cyhoeddus
    - o mewn ymateb i achosion o wall unigolyn - er enghraifft gwnaeth unigolyn gamgymeriad gonest wrth lenwi ffurflen neu gais am grant roedd ganddo hawl iddo

- o yn ddewis amgen i erlyniad troseddol - sy'n golygu na all unigolyn osgoi cael ei erlyn trwy gytuno i dderbyn cosb. Ni all y PSFA ddefnyddio'r bygythiad o erlyniad i roi pwysau ar bobl i dderbyn cosb.
- o mewn achosion lle mae Swyddog Awdurdodedig yn pennu nad yw'n briodol rhoi cosb am dwyll neu ddiffyg cydymffurfio yn seiliedig ar bob ffactor sy'n cyfrannu i achos unigol, gan gynnwys asesiad bregusrwydd sy'n mynd rhagddo, ac yn unol â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus.

- Nid yw gwall a wnaed gan unrhyw awdurdod cyhoeddus o blaid unigolyn neu sefydliad yn rhoi hawl iddynt gadw unrhyw swm a dalwyd trwy wall. Dylent gymryd camau i gywiro unrhyw wall cyn gynted a'u bod yn dod yn ymwybodol ohono. Gall swm a dalwyd trwy amryfusedd gael ei adhawlio naill ai gan yr awdurdod cyhoeddus a wnaeth y gwall neu gan y PSFA yn gweithredu ar eu rhan, neu drwy ddulliau eraill.

# 12. Gostyngiad Cosb

## 12.1 Sut y defnyddir gostyngiadau cosbau

- Mae cydweithrediad yn arwydd o ewyllys da ac mae'n gwneud gorfodi'r gyfraith yn symlach, yn haws, yn gyflymach ac yn fwy effeithiol. Mae canlyniad cydweithredu ag ymchwiliad a chyfaddef bod camymddwyn yn debygol o fod yn well o lawer i'r unigolyn neu sefydliad na pheidio â gwneud hynny.

- Gall unigolyn sy'n cydweithredu'n llawn ag ymchwiliad i'w ymddygiad twyllodrus dderbyn cosb ostyngol. Mae hyn yn gyfan gwbl o fewn disgresiwn y PSFA ac yn dibynnu ar holl amgylchiadau achos. Gwneir penderfyniad i gynnig gostyngiad am gydweithrediad ar ôl i'r PSFA benderfynu peidio â cheisio erlyniad troseddol, ond fel arall gellir ei wneud yn ystod unrhyw gyfnod o'r broses ymchwiliadol.

- Gall pennu gostyngiadau cosb ar unrhyw lefel a'u gosod ar ôl i gosb gael ei chyfrifo fel yr amlinellir uchod, ond fel arfer bydd yn ddim mwy na 50% o'r gosb a gyfrifir.

- Mae gostyngiad yn amodol ar yr unigolyn neu fusnes yn cwblhau'r camau canlynol:
  - o **darparu datgeliad llawn** o unrhyw weithgaredd twyllodrus yn erbyn y sector cyhoeddus

- o **derbyn** y ffeithiau fel y cawsant eu cyflwyno
- o **ad-dalu'r symiau** a dwyllwyd
- o **derbyn** cosb

- Bydd yn ofynnol i'r unigolyn lofnodi tystysgrif o ddatgeliad llawn sy'n ardystio ei fod wedi cwblhau'r broses hon yn llawn. Os canfyddir wedyn nad yw unigolyn wedi datgelu pob gweithred dwyllodrus, gellir defnyddio'r dystysgrif fel tystiolaeth mewn unrhyw ymchwiliad dilynol.

- Bydd y PSFA yn gofyn i unigolyn sy'n cydweithredu ag ymchwiliad i ddarparu gwybodaeth a dogfennau sydd eu hangen ar gyfer yr ymchwiliad. Rhoddir hyd rhesymol o amser i'r unigolyn ddarparu hyn a gwneir pob datgeliad ar sail wirfoddol.

- Mae'r PSFA yn disgwyl i'r unigolyn neu fusnes sicrhau bod unrhyw wybodaeth ac atebion a ddarperir yn gywir. Os ydynt yn ansicr ar unrhyw adeg am y broses neu'r hyn a ofynnir gall yr unigolyn neu fusnes gysylltu â'r PSFA am ragor o arweiniad. Mae'n bwysig darparu'r holl ffeithiau a gwybodaeth perthnasol ar gais i gynorthwyo'r PSFA â chwblhau'r ymchwiliad.

- Os yw unigolyn sy'n cydweithredu yn tynnu ei gydweithrediad yn ôl ar unrhyw adeg, gall y PSFA arfer ei ddisgresiwn ynghylch a ddylid rhoi unrhyw ostyngiad ar unrhyw gosb ddilynol Gall y PSFA ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir at ddibenion parhau'r ymchwiliad.

# 13. Cosbau am beidio â chydymffurfio

## 13.1 Pryd y defnyddir cosbau am ddiffyg cydymffurfio

- Yn wahanol i droseddau twyll, sy'n gysylltiedig â gwerth ariannol y twyll, mae cosbau am beidio â chydymffurfio a gofynion o dan **Benodau 2 a 4** y Ddeddf hon yn werthoedd ariannol gosodedig:
    - o peidio â chydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth a osodwyd o dan Bennod 2 neu 4: **cyfradd ddyddiol o £300**
    - o peidio â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad arall a osodwyd o dan Bennod 2 neu 4: **cosb sefydlog o £300**

## 13.2 Hawliau Gweithdrefnol

- o Yn achos cosbau sifil am ddiffyg chydymffurfiio, mae'r un hawliau gweithdrefnol yn berthnasol fel yr amlinellir yn **adrannau 9, 10 ac 11.**

## 13.3 Cyfrifo a defnyddio llog ar gosbau sifil

- Gellir codi llog ar daliad hwyr yn achos cosbau sifil, gan gynnwys ar gyfer cosbau am ddiffyg cydymffurfio â gofynion o dan **Benodau 2 a 4** y Ddeddf. Ni fydd llog cyfansawdd yn berthnasol. Ar ôl derbyn hysbysiad o fwriad a/neu hysbysiad cosb, gwneir unigolion yn ymwybodol o'r cyfraddau llog a ddefnyddir am daliadau hwyr. Codir llog o'r diwrnod ar ôl y diwrnod y disgwylir taliad yr hysbysiad cosb.

- Codir llog yn ddyddiol. Mae'r gyfradd llog am daliad hwyr sy'n berthnasol i ddiwrnod yn y cyfnod llog yn ganran fesul blwyddyn a ganfuwyd trwy ychwanegu 2.5 i gyfradd Banc Lloegr sy'n berthnasol i'r diwrnod. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os yw cyfradd llog y Banc yn 3.5%, 6% fydd y llog a godir.

- Bydd y PSFA yn ymgorffori trefniadau diogelu i sicrhau na chaniateir i log gronni i lefelau anghymesur a bod cosbau yn cael eu talu'n gyflym. Gall hyn gynnwys y pwerau ym **Mhennod 4** y Ddeddf i adennill dyledion.

## 13.4 Sut y byddwn yn cysylltu ag unigolyn neu sefydliadau os byddwn yn rhoi cosb

- Mae'r PSFA yn gweithredu fel asiant i awdurdodau cyhoeddus eraill. Ni fydd y PSFA yn anfon llythyrau at unigolion a busnesau ond i ofyn am wybodaeth ychwanegol, i gymryd rhan mewn proses gyfreithiol, ac i gasglu arian sy'n ddyledus i Lywodraeth Ei Fawrhydi.

- Gellir canfod gwybodaeth am ein cysylltiad â chi ar wefan y PSFA https://www.gov.uk/government/organisations/public-sector-fraud-authority. Bydd unrhyw un sy'n derbyn llythyr am gosb yn gallu gwirio ei ddilysrwydd. Dylai unigolion neu sefydliadau wirio a yw eu llythyr yn un cywir drwy ddefnyddio'r wybodaeth ar ein gwefan.

- Mae llythyrau ar gael mewn fformatau hygyrch. Os yw unigolyn yn gofyn am fformat amgen oherwydd bod ganddo, er enghraifft, nam ar ei olwg neu fod

ganddo gyflwr arall sy'n gwneud print safonol yn anodd gall anfon e-bost atom yn enforcementinvestigations@cabinetoffice.gov.uk ac amlinellu eu gofynion.

- Pan dderbynnir llythyr, dylai'r derbynnydd e-bostio'r cyfeiriad canlynol, enforcementinvestigations@cabinetoffice.gov.uk. Dylai pennawd pwnc y llythyr ddarllen fel eu henw a ddatganwyd ar y llythyr wedi'i ddilyn gan y cyfeirnod yng nghornel dde uchaf y llythyr. (Enghraifft o linell pwnc: Joe Bloggs 12346). Bydd y tîm yn cadarnhau derbyniad, ac yn dilyn hynny byddant yn ymateb i'r e-bost.

# 14. Beth os yw unigolyn neu sefydliad yn meddwl bod gwall neu gamgymeriad

## 14.1 Trefniadau diogelu

- Mae gan y PSFA drefniadau diogelu cadarn mewn grym i atal gwall a chamgymeriadau. Os yw unigolyn neu sefydliad yn credu bod gwall neu gamgymeriad wedi ei wneud, mae'n rhaid iddynt roi gwybod i'r PSFA ar unwaith yn ysgrifenedig, gan roi manylion y gwall neu gamgymeriad a darparu unrhyw dystiolaeth sy'n angenrheidiol i'n galluogi ni i gywiro'r sefyllfa.

- Gellir canfod gwybodaeth ynghylch y trefniadau diogelu mewn grym ar gyfer y pŵer hwn ym Mhennod 7 (Cosbau am Dwyll), Pennod 8 (sylwadau ar gyfer cosbau twyll sifil), Pennod 9 (adolygiadau mewnol o benderfyniadau cosbau twyll sifil) a Phennod 10 (Apeliadau yn achos Cosbau am Dwyll).

## 14.2 Data - Sut i wneud cwyn

- Os yw unigolyn yn ystyried bod ei ddata personol wedi cael eu camddefnyddio neu eu camdrafod, gall wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheoleiddiwr annibynnol. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

| | |
|---|---|
| **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** | Wycliffe House<br>Water Lane<br>Wilmslow<br>Swydd Gaer<br>SK9 5AF<br><br>Teleffon: 0303 123 1113<br>E-bost:<br>icocasework@ico.org.uk |

- Ni fydd unrhyw gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn niweidiol i'r hawl i geisio iawn trwy'r llysoedd. Y rheolwr data ar gyfer data personol yw:

| | |
|---|---|
| **Rheolwr data ar gyfer data personol** | Swyddfa'r Cabinet<br>1 Horse Guards Road<br>Llundain<br>SW1A 2HQ |

- Y manylion cyswllt ar gyfer y Swyddog Diogelu Data (DPO) yn Swyddfa'r Cabinet yw: dpo@cabinetoffice.gov.uk. Mae'r Swyddog Diogelu Data yn darparu cyngor annibynnol ac yn monitro o defnydd Swyddfa'r Cabinet o wybodaeth bersonol.

# 15. Talu cosbau

## 15.1 Sut i dalu cosb

- Darperir manylion sut i dalu cosb i unigolyn mewn gohebiaeth a anfonir gan y PSFA.

## 15.2 Talu costau adferadwy a achoswyd

- Mae'r Ddeddf yn galluogi'r PSFA i adennill costau a gynhyrchir wrth adennill dyledion, gan gynnwys adennill y gosb sifil a llog ar daliad hwyr.  Bydd PSFA fel arfer yn ceisio adennill costau rhesymol - gallai hyn gynnwys, lle'n berthnasol, unrhyw gostau sy'n rhan o sefydlu dyled trwy'r llysoedd, a gall gynnwys costau rhesymol eraill. Gall y rhain fod o ganlyniad i orchymyn costau a wneir gan lys. Ni fydd yn cynnwys costau rhedeg o ddydd i ddydd y PSFA, gan gynnwys costau cynnal yr ymchwiliad.

- Bydd y PSFA yn ceisio taliad o unrhyw gostau rhesymol ar adeg briodol yn yr achos. Fel arfer, bydd hyn ar ddiwedd yr achos. I sicrhau bod unigolyn neu sefydliad yn deall yr hyn y gofynnir iddynt ei dalu a pham, bydd unrhyw alwad i dalu costau perthnasol yn cael ei wneud ar wahân i neu ochr yn ochr ag unrhyw hysbysiad cosb, nid fel taliad cyfan.

- Fel yn achos yr holl gosbau a thaliadau, bydd y PSFA yn ystyried bregusrwydd yr unigolyn cyn ceisio adennill **(gweler adran 16.2).**

# 16. Cosbau heb eu talu

## 16.1 Cyfnodau Talu

- Mae gan unigolion a sefydliadau 28 diwrnod i gydymffurfio a hysbysiadau cosbau am dwyll a pheidio â chydymffurfio. Os yw'r unigolyn neu sefydliad yn gofyn am adolygiad a/ neu'n gwneud apêl, fel yr amlinellir yn y ddeddfwriaeth a'r canllaw hwn, pan fydd yr amserlenni hyn wedi dod i ben, ac yn dibynnu ar y canlyniadau, bydd taliad yn ddyledus.

- Mae cosbau sifil heb eu talu yn agored i gronni llog, fel y manylir yn **adran 13.3** o'r canllaw hwn. Ni fydd cosbau sifil heb eu talu yn arwain at ddedfrydau o garchar. Os na fydd y taliad wedi ei wneud, bydd y PSFA yn defnyddio ei bwerau adfennill dyledion i adennill cosbau heb eu talu a'r llog, neu gymryd camau eraill i adennill dyledion.

## 16.2 Sut yr adferir dyledion cosbau sifil

- Daw cosb sifil yn ddyled sy'n ddyledus i lywodraeth pan fydd:
    - o y terfyn amser ar gyfer taliad wedi mynd heibio, a'r
    - o amser ar gyfer apelio yn erbyn y gosb wedi mynd heibio heb fod apêl wedi'i wneud,, neu
    - o apêl yn erbyn y gosb wedi ei phenderfynu'n derfynol.

- Dan yr amgylchiadau hyn, gall y PSFA ddefnyddio'r pwerau adennill dyled ym Mhennod 4 y Ddeddf i adennill y ddyled. Y pwerau hyn yw:
    - o **Gorchmynion Didynnu o Enillion** (DEOs) yn achos unigolion mewn cyflogaeth PAYE;
    - o **Anfonir Gorchmynion Didynnu Uniongyrchol** (DDOs) i fanciau i adennill arian o gyfrifon banc. Gall Gorchmynion Didynnu Uniongyrchol fod naill ai'n:

- o **Orchmynion Didynnu Uniongyrchol Cyfandaliadau** (LSDDO) am symiau penodedig o gyfrifon banc;
- o **Gorchmynion Didynnu Uniongyrchol Rheolaidd** (RDDOs) ar gyfer didyniadau rheolaidd o gyfrifon yr unigolyn o dan rwymedigaeth.
- o **Gorchymyn adennill** trwy'r llys sirol.

● Bydd y PSFA yn dewis y dull adennill sy'n fwyaf priodol dan amgylchiadau pob achos a gwneir ymdrechion i sicrhau ad-daliadau gwirfoddol cyn defnyddio'r pwerau adennill dyledion. Trwy gydol y broses o adennill dyledion, bydd y PSFA yn darparu digon o gyfleoedd i unigolion gymryd rhan yn wirfoddol mewn ad-daliadau fforddiadwy.

● Bydd y PSFA yn sicrhau bod y rhai sy'n agored i niwed neu'r rheini mewn caledi yn cael eu diogelu fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn **adran 5.5 o'r canllaw hwn**.

● Am ragor o wybodaeth am y broses o adennill dyledion, gan gynnwys:

o hawliau i sylwadau, adolygiadau ac apeliadau mewnol

o trefniadau diogelu, ystyriaethau bregusrwydd a fforddiadwyedd

● cyfeiriwch at y canllaw adennill dyledion penodol a gyhoeddwyd ar wahân.

## 16.3 Costau Ychwanegol

● Yn unol â'r dulliau ar draws llywodraeth, gall eu banc godi tâl ar unigolyn am gydymffurfio â gorchymyn adennill Mae hyn er mwyn talu costau gweinyddol rhesymol y banc neu gyflogwr. Nodir y symiau mewn rheoliadau a darperir gwybodaeth ychwanegol yn y canllaw adennill dyledion ar wahân.

# 17. Rheoli gordaliadau

## 17.1 Gordaliadau

● Mae trefniadau diogelu a phrosesau cadarn wedi'u sefydlu i atal gordaliadau o gosbau sifil a dyledion sy'n ddyledus. Bydd pob taliad sy'n dod i mewn yn cael eu monitro yn rheolaidd. Fodd bynnag, pe byddai gordaliad yn digwydd, caiff ei ddarganfod, ei asesu a'i gywiro. Mae'n rhaid i unigolyn dan rwymedigaeth hefyd roi gwybod i'r PSFA ei fod wedi gwneud gordaliad, ac asesir y sefyllfa. Os yw unigolyn atebol wedi gwneud gordaliad, cysylltir ag ef i gywiro'r sefyllfa cyn gynted â phosibl.

# 18. Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion

## 18.1 Sut y prosesir data

- Mae'r PSFA yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018. Mae hyn yn nodi'r egwyddorion ar gyfer caffael, cofnodi, defnyddio a diogelu'n deg a chyfreithlon wybodaeth bersonol. Mae'r ddeddf yn gweithio mewn dwy ffordd:

  o mae'n rhoi hawliau penodol i unigolion

  o mae'n sicrhau bod y PSFA yn agored am sut y storir ac y defnyddir gwybodaeth.

- Gellir gweld copi o Hysbysiad Preifatrwydd y PSFA yma. Mae'r hysbysiad hwn yn amlinellu sut bydd yr Uned, sy'n rhan o Swyddfa'r Cabinet, yn defnyddio data personol, a hawliau unigolyn mewn perthynas â'r data hynny.

## 18.2 Cwynion

- Mae gan Swyddfa'r Cabinet broses sefydledig sy'n galluogi unigolion sydd â chwyn am ymddygiad staff y PSFA neu eu triniaeth i godi cwyn. Gellir canfod gwybodaeth am sut i wneud cwyn yma. Gellir gwneud cwyn drwy ddefnyddio''r ffurflen gysylltu ar-lein neu drwy'r post gan ddefnyddio'r cyfeiriad a ddarperir. Mae'r hawl i wneud cwyn ar wahân i hawliau unigolyn neu sefydliad i wneud sylwadau, cael adolygiad ac apelio ynhylch cosbau sifil fel y cânt eu gosod yn y Ddeddf a'u manylu yn y Cod Ymarfer hwn, ac nid yw'n effeithio ar yr hawliau hynny.

- Os bydd achwynydd yn parhau'n anfodlon yn dilyn canlyniad gweithdrefnau cwynion Swyddfa'r Cabinet caiff godi hyn â'i Aelod Seneddol. Gall yr Aelod Seneddol wedyn godi hyn â'r Ombwdsmon Seneddol ac Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd, sy'n ystyried cwynion pan fydd rhywun yn credu bod anghyfiawnder neu galedi wedi bod oherwydd nad yw sefydliad wedi gweithredu'n gywir neu wedi rhoi gwasanaeth gwael ac heb unioni'r cam. Mae gwefan yr Ombwdsmon yn esbonio sut y gellir cysylltu â nhw.

- Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer penodi Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i ymdrin â chwynion difrifol ynglŷn â defnydd y PSFA o bwerau PACE. Bydd y PSFA yn eu cyfeirio eu hunain at SAYH pe bai digwyddiad difrifol; yn ystod ymchwiliad. Mae SAYH yn diffinio digwyddiad difrifol fel rhywbeth sy'n achosi anaf difrifiol neu farwolaeth i aelod o'r cyhoedd. Fodd bynnag, gall unrhyw asiantaeth gorfodi cyfraith o fewn

cwmpas SAYH, neu aelodau'r cyhoedd, wneud adroddiad trwy SAYH os bydd ganddynt bryderon ynghylch ymddygiad ymchwilwyr. Gellir gwneud hyn yma.

# 19. Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Cyrff hyd braich (ALB)** | Categori penodol o gyrff cyhoeddus y llywodraeth ganolog a ddosberthir yn weinyddol gan Swyddfa'r Cabinet. Mae tri math o Gorff Hyd Braich: Asiantaeth weithredol, corff cyhoeddus anadrannol ac adran anweinidogol. |
| **Swyddog Awdurdodedig (SA)** | Unigolyn dynodedig o fewn y PSFA sydd wedi'i rymuso i weithredu dyletswyddau penodol megis casglu gwybodaeth ac ymchwilio i dwyll |
| **Cosb Sifil** | Cosb ariannol a osodir yn weinyddol gan y llywodraeth neu awdurdod cyhoeddus, neu mewn achos sifil gan lys, i gosbi camymddwyn neu fel adferiad yn achos camymddwyn. Nid yw cosb sifil yn arwain at nac yn dilyn euogfarn am drosedd. |
| **Safon Profi Sifil** | Safon profi a ddefnyddir mewn achosion sifil sy'n gofyn bod y dystiolaeth yn dangos rhywbeth sydd, ar sail tebygolrwydd, yn fwy tebygol na pheidio o fod wedi digwydd. |
| **Adennill Dyled** | Y broses o geisio taliadau dyledion sy'n ddyledus gan unigolion neu fusnesau. |
| **Gorchymyn Didynnu o Enillion (DEO)** | Gorchymyn a ddefnyddir i adennill dyledion yn uniongyrchol o enillion unigolyn trwy ei gyflogwr. |
| **Gorchymyn Didynnu Uniongyrchol (DDO)** | Gorchymyn a ddefnyddir i adennill dyledion yn uniongyrchol o gyfrif banc unigolyn trwy ei fanc |
| **Deddf Twyll 2006** | Deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr sy'n diffinio troseddau statudol Twyll. |

| | |
|---|---|
| **Personau Cyfreithiol a Naturiol** | O dan y ddeddfwriaeth hon mae 'person' yn berson cyfreithiol yn ogystal â naturiol ac felly mae'n cynnwys unigolion a busnesau. Mae person naturiol yn fod dynol unigol. Gall systemau cyfreithiol atodi hawliau a dyletswyddau i bersonau naturiol heb eu cydsyniad. Mae person cyfreithiol yn endid a drinnir fel person at ddibenion cyfreithiol. Gall personau cyfreithiol fod yn breifat, megis endid busnes neu sefydliad anllywodraethol, neu gyhoeddus, megis llywodraeth. |
| **Person Atebol** | Unigolyn neu endid a bennir i fod yn gyfrifol am ddyled neu gosb, megis y rheini sy'n codi o dwyll neu arian a gamhawliwyd. |

| | |
|---|---|
| **Gorchmynion Didynnu Cyfandaliad Uniongyrchol (LSDDO)** | Math o Orchymyn Didynnu Uniongyrchiol sy'n caniatáu didynnu swm penodedig o gyfrif banc dyledwr. |
| **Gordaliad** | Swm o arian a dderbynnir gan berson neu endid sy'n fwy na'r hyn y mae ganddynt hawl iddo. |
| **Gorchmynion Didynnu Uniongyrchol Rheolaidd (RDDO)** | Math o Orchymyn Didynnu Uniongyrchol sy'n caniatáu didyniadau rheolaidd o gyfrif dyledwr i adennill dyledion. |
| **Ceisiadau am Fynediad gan y Testun (SAR)** | Hawl gyfreithiol sy'n caniatáu i unigolyn ofyn i sefydliad am gopi o'i ddata personol y mae'r sefydliad yn eu dal, gan gynnwys manylion am sut mae'r data hynny yn cael eu defnyddio ac â phwy y maent yn eu rhannu |
| **Tribiwnlys** | Math o lys sydd â'r awdurdod i ddyfarnu anghydfodau cyfreithiol a gweinyddu cyfiawnder mewn meysydd penodol megis cyflogaeth, mewnfudo, a chosbau sifil. |
| **Deiliad Gwybodaeth** | Unigolyn neu sefydliad sy'n dal gwybodaeth sy'n berthnasol i fwrw ymlaen ag ymchwiliad. |

| | |
|---|---|
| **Hysbysiad gwybodaeth** | Hysbysiad sy'n gorfodi parti cyntaf a/neu drydydd parti i ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i ymchwiliad. |
| **Braint Broffesiynol Gyfreithiol** | Amddiffyniad a roddir i gyfathrebiadau cyfrinachol rhwng cynghorwr cyfreithiol a'i gleient. |
| **Awdurdod Cyhoeddus** | Corff sy'n perfformio swyddogaethau cyhoeddus |